



Ysgol Dyffryn Ogwen

Bydded Goleuni

www.ysgoldyffrynogwen.org

Ffôn: 01248 600291



## Bwletin i Rieni 'Nadolig Llawn'



### Dyddiadau Pwysig

#### 21 Rhagfyr 2012

Diwrnod Olaf Tymor

#### 24 Rhagfyr i'r 4ydd o Ionawr 2013

Gwyliau'r Nadolig

#### 7 Ionawr 2013

Dechrau tymor i'r disgyblion

#### 9-17 Ionawr 2013

Arholiadau TGAU

(UG/SU – 09.01.13 - 28.01.13)

#### 22 Ionawr 2013

Cyfarfod Rhieni Bl. 11

#### 24 Ionawr 2013

Noson Opsiynnu Bl. 9 – 7:00yh

#### 5 Chwefror 2013

Noson Rhieni Bl. 9

#### 11-15 Chwefror 2013

Gwyliau Hanner Tymor

### Arolwg Ysgol Dyffryn Ogwen

Diolch o galon i bob un rhiant a gyfrannodd tuag at arolwg llwyddiannus yr ysgol yn ddiweddar. Cwblhawyd holiaduron gan dros 100 o rieni ac yr oedd yr ymateb yn bositif iawn. Yn y cyfarfod i rieni yn ystod yr wythnos eto yr oedd y sylwadau'n hynod o gefnogol a phositif. Y mae'r ysgol yn wir ddiolchgar am eich cefnogaeth fel rhieni. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar Chwefror 1af, 2013.



### Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau mawr i Sian Mererid (Bl 13) ar ennill flws Medal yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2012.

Llongyfarchiadau i gôr iau yr ysgol a'r grŵp siambr offerynnol ar eu perfformiadau safonol yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar nos Wener, Tachwedd 16. Dechreuwyd y noson gan y côr gyda'u rhaglen 'Teithio'r Byd' oedd yn cynnwys 'Canwn yn Glir' fel y gân agoriadol oedd yn defnyddio geiriau'r anthem genedlaethol. Symudon nhw i ochr arall y byd gyda'u datganiad nesaf, sef cân draddodiadol Jamaica 'Marchnad Llanfair', ac yn olaf daethant â'r byd gyda'i gilydd gyda threfniant Hywel Parry o gyfansoddiad Holst 'Byd yn Un' ('World in Union') i gyfeiliant bywiog piano, bas a drymiau. Llongyfarchiadau i chi ar berfformiad disgybledig.

Aeth y drydedd wobr i'r grŵp siambr - Sian Mererid (ffliwt), Rhiannon Llwyd (obo), Lois Jones (clarinét) a Martha Evans (cello). Da iawn chi!

Bydd côr yr ysgol yn perfformio mewn Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Jeriwsalem ar nos Sul, Rhagfyr 23ain, 2012.



### Cinio Ysgol Am Ddim

Efallai fod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:-

\* Cymorth Incwm

\* Lwfans Chwilio am Waith

\* Credyd Treth Plant (yn unig)

\* Gwarant Credyd Pensiwn

Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau yng Nghaernarfon ar

01286 682689.

## Ymweliad Blwyddyn 6

Bu disgyblion dalgyloch blwyddyn 6 yma am ddiwrnod cyfan yn cael blas ar wersi ysgol uwchradd. Cawsant ddiwrnod llawn a phrysur a oedd yn cynnwys gwersi Gwyddoniaeth, Celf, Saesneg a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Gobeithio y bydd pob un yn heidio yma i Ysgol Dyffryn Ogwen!



### 'Operation Christmas Child'

Unwaith eto eleni paratôdd disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen lu o focsys i'w hanfon at 'Operation Christmas Child'. Diolch yn arbennig i ddsbarth 12 Glyder am drefnu'r casglu fel rhan o'u gwaith gwirfoddoli ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.

## Taith Caerdydd

Bu holl fyfyrwyr blwyddyn 12 ar daith i Gaerdydd ar y 6ed a'r 7fed o Ragfyr. Prif bwrpas yr ymweliad oedd gwella eu dealltwriaeth o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, pwy sy'n ein cynrychioli a pha feysydd sydd wedi eu datganoli? Cawsant chwarae rôl Aelod Cynulliad trwy gymryd rhan mewn dadl yn Siambr Hywel (hen siambr y cynulliad) ar newid y drefn o roi organau. Bydd y ddadl yma yn cael ei chynnal go iawn yng Nghaerdydd ac yn Llundain yn y dyfodol agos. Cafwyd cyfle hefyd i fynd ar daith o amgylch Stadiwm y Mileniwm gan weld y cyfleusterau arbennig sy'n cuddio yng nghrombil yr adeilad cyn manteisio ar y cyfle i ymweld â siop neu ddwy. Ar y ffordd adref roedd cyfle hefyd i fynd i Amgueddfa Pwll Mawr (Big Pit); profiad hynod o gael cip ar fywyd gwaith y glöwr dros y degawdau.



## Cap i Gymru



Llongyfarchiadau i Mathew Buchanan, 7 Glyder, gafodd ei gyflwyno efo cap criced Cymru mewn seremoni yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Bu Mathew yn chwarae nifer o gemau i dîm dan 11 Cymru dros yr Haf gan gynnwys un yng Nghlwb Criced Bethesda. Bu ei fowlio cyflym yn arwain y fim a'r wicedi a gymerodd yn allweddol i sawl buddugoliaeth i Gymru. Da iawn, Mathew.

## Trefniadau Argyfwng Cau'r Ysgol

Os bydd y tywydd yn ddrwg ben bore e.e. oherwydd eira, fe'ch cynghorir i wrando ar Radio Cymru, Radio Wales neu Heart FM am gyhoeddiad. Byddwn hefyd yn ceisio ein gorau i anfon neges destun allan mor fuan â phosibl a rhoi cyhoeddiad ar safwe'r ysgol. Bydd y trefniadau'n ddibynnol ar natur yr argyfwng ond byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch y disgyblion a staff yr ysgol.

Dyma'r camau y byddwn yn eu cymryd o fewn yr ysgol os byddwn yn gorfod cau yn ystod y dydd:-

1. Bwriedir anfon neges destun i chwi os bydd angen cau mewn argyfwng.  
(Cofiwch adael i ni wybod os yw rhif eich ffôn symudol wedi newid.)
2. Trefnir bod y cwmnïau bws yn dod i'r ysgol i nôl y disgyblion.
3. Cyhoeddir i'r disgyblion nad ydynt i adael tir yr ysgol (cerdded adref na dal bws) oni bai bod ganddynt fynediad i'w cartrefi neu dŷ perthynas/frind agos.

Anaml y bydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth pan fydd angen gwneud penderfyniad brys. Gallwn eich sicrhau ein bod bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y disgyblion. Hoffwn dynnu eich sylw at bwynt 3 uchod, sef yr angen i ddisgyblion fod yn glir ynglŷn â'r trefniadau 'adref' mewn sefyllfa o argyfwng. Gofynnir i chi sicrhau bod eich plentyn yn ymwybodol o'r trefniadau y dymunwch iddynt eu dilyn mewn argyfwng.



## Grant Gwisg Ysgol

Mae'n bosib fod gennyh hawl i gael grant gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych yn derbyn un o'r canlynol:-  
\* Cymorth Incwm  
\* Lwfans Chwilio am Waith  
\* Lwfans Rhiant Gweddw  
\* Gwarant Credyd Pensiwn

Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau yng Nghaerdydd ar 01286 682689.

## Clwb Gwaith Cartref



Mae'r Clwb Gwaith Cartref ar agor bob dydd o 3:30 hyd at 4:30. Mae hyn yn gyfle ardderchog i ddisgyblion gael cymorth gyda'u gwaith ysgol.

Mae croeso i ddisgyblion o flynyddoedd 7 i 11 fynychu'r Clwb.

